

Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal yn llawn bywyd gwyllt. Dyma rai o'r rhywogaethau sy'n byw yma. Faint allwch chi ei gweld?




Corhedydd y waun

Mae'r aderyn bach brown yma yn swillyd! Allwch chi ei weld yn hedfan yn uchel a chanu wrth hofran yn araf yn ol i'w guddfan?



Tormaen Cyferbynddail

Arwydd clir fod gwanwyn ar ei ffordd! Y planhigyn cyntaf i flodeuo yn y Cwm. Edrychwch am ei flodau porffor ar y creigiau.



Tresgl y moch

Blodyn cyffredin ar laswelltir yn y Cwm. Nodedig am ei 4 petal melyn. Yn y gorffennol dywedir iddo drin poen bol.



Gafr

Mae geifr yn dod i lawr i droed y mynydd yn y gaeaf, a fei gwelir yn aml yn y gwanwyn. Maent yn gallu amharu ar goed sy'n tyfu yn y Cwm drwy borri a difrodi rhisgl y coed.




Gwyach fawr gopog

Aderyn dŵr trawiadol gyda chrib amlwg o blu ar ei ben.



Suran y coed

Coeliwch neu beidio, roedd coed yn arfer gorchuddio Cwm Idwal! Mae'r planhigyn coedwig yma yn edrych fel meillionen ac yn dal i dyfu yma.



Plu'r gweunydd

Planhigyn cyffredin i'w weld mewn ardaloedd gwlyb yn y Cwm. Edrychwch am ei hadau gwyn sy'n edrych fel plu.



Gludlys mwsoglog

Mae'r planhigyn yma yn fwy cyffredin yn yr Arctig. Mae'n goroesi ar lethrau tywyll uchel ag oer yn y Cwm. Edrychwch am ei flodau pinc



Llwyn coeg-fefus

Gyda siom fawr, mae'r planhigyn yma yn edrych yr union fel mefus. Ond ni chawn ffrwyth i'w fwyta ohonno



Tinwen y Garn

Aderyn bach sy'n ymfudo o Affrica i Gwm Idwal bob haf!

